**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Bethan Sayed AC
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a
Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Chwefror 2019

Annwyl Bethan

**Cefnogi a hybu'r Gymraeg**

Bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn trafod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ym mis Hydref fel rhan o'n gwaith craffu ehangach ar gyfrifon, a disgwylir i ni gyflwyno adroddiad yn fuan. Ni chafodd fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru eu gosod ar yr un pryd, gyda'r fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi ar 15 Hydref 2018 – 12 diwrnod ar ôl y Saesneg. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch y methiant i gyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg. Mae'n arbennig o siomedig bod un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu mai gwallau teipograffyddol oedd y rheswm dros yr oedi.

Fel y gwyddoch, mae methiant i gyhoeddi cyfrifon yn Gymraeg a Saesneg ar y pryd yn mynd yn groes i'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Rydym o'r farn bod cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon ar ddiwrnod y sesiwn dystiolaeth, tua pythefnos ar ôl gosod y fersiwn Saesneg, yn annerbyniol ac yn ddangosydd sy'n peri pryder o ran diwylliant Llywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Ynghyd â'r mater penodol ynghylch cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon, mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei threfniadau mewnol. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod hi wedi oedi cyhoeddi fersiwn derfynol gweithgor Llywodraeth Cymru i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg gan fod angen gwneud gwaith pellach yn ei barn hi.  Dywedodd hi wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn am adolygiadau i gael eu cynnal mewn cysylltiad â'r diffiniad o ddwyieithrwydd, arfer gorau yn safonau'r Gymraeg a'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael i staff Llywodraeth Cymru.

Deallwn fod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn cynnal ymchwiliad o’r enw Cefnogi a Hybu'r Gymraeg, sy’n edrych ar y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach. Roeddem am dynnu eich sylw at y materion hyn a gofyn i chi ystyried gwahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i roi tystiolaeth fel rhan o'ch ymchwiliad.  Fel cyflogwr sylweddol o staff, sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig sylweddol gan Weinidogion Cymru, rydym yn credu bod rhai cwestiynau penodol i'w gofyn ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddwyieithrwydd a'r ymrwymiad i gyflawni'r safonau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AM**
**Cadeirydd**